

POLISI GOFAL Y GEG AR GYFER CARTREFI GOFAL

Datganiad Cenhadaeth: Gwella Iechyd y Geg ein Preswylwyr

Mae gofal y geg da yn bwysig iawn i'n preswylwyr a'n staff. Rydym yn gwybod y bydd gwella sgiliau ein staff yn helpu i wella gofal y geg ein preswylwyr. Bydd ein cartref yn sicrhau gofal y geg da drwy ddarparu'r hyn a ganlyn:

Bydd yr holl breswylwyr:

- yn derbyn asesiad gofal y geg llawn o fewn saith niwrnod ar ôl cyrraedd y cartref. Bydd hwn yn cael ei ddiweddarau bob mis ac yn cael ei gynnal gan unigolyn sydd â'r hyfforddiant priodol.
- yn derbyn cynllun gofal y geg a ddilynir yn ddyddiol ac sy'n cael ei ddiweddarau yn unol â'r asesiad gofal y geg.
- yn cael eu cynorthwyo'n briodol gyda'u harferion gofal y geg dyddiol fel sy'n ofynnol.
- yn cael mynediad rhwydd i gynnyrch gofal y geg priodol (brws dannedd, past dannedd, cynnyrch gofalu am ddannedd gosod). Bydd hyn yn cynnwys labelu dannedd gosod lle bo hynny'n briodol.

Bydd yr holl staff:

- yn derbyn hyfforddiant ar ofal y geg sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- yn ymwybodol o bwysigrwydd gofal y geg da.
- yn defnyddio offeryn asesu a chynllun gofal y geg yr unigolyn.
- yn cofnodi anghenion yr holl breswylwyr mewn perthynas â gofal y geg.
- yn adrodd unrhyw ddigwyddiadau neu ddannedd gosod sydd ar goll i reolwr y cartref gofal.
- yn sicrhau bod enw'r preswlydd yn cael ei nodi ar ddannedd gosod newydd.

Bydd rheolwr y cartref gofal:

- yn sicrhau bod gan y gweithlu y sgiliau a'r hyfforddiant priodol a'i fod yn gymwys i ddarparu gofal y geg da.
- yn sicrhau bod yr holl breswylwyr yn derbyn asesiad o'r geg o fewn 7 niwrnod ar ôl iddynt gyrraedd y cartref.
- yn sicrhau bod gan yr holl breswylwyr gynllun gofal y geg unigol a gyflawnir.
- yn sicrhau bod gan yr holl breswylwyr gyfarpar brwsio dannedd/past dannedd/gofal dannedd gosod priodol.
- yn adrodd ynghylch digwyddiadau diogelwch cleifion.
- yn cadw rhestr o'r wybodaeth gyswllt briodol ar gyfer y gwasanaeth deintyddol lleol i ddarparu mynediad i ofal deintyddol.
- yn darparu staff cymorth i breswylwyr fynychu gwasanaethau deintyddol pan fo angen.

Bydd teuluoedd a pherthnasau:

- yn cael eu hysbysu ynghylch y polisi gofal y geg.
- yn cael eu hysbysu ynghylch anghenion a gofal y geg eu perthnasau.
- yn cael eu hysbysu pan fo angen gwasanaethau deintyddol a phan fyddant yn cael eu defnyddio.

! Dim ond ymarferwyr sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol all roi diagnosis o glefyd deintyddol a'i drin a gwneud atgyfeiriad ar gyfer triniaeth arbenigol.

Enw'r Cartref Gofal:					
Cartref Gofal Enw'r Rheolwr	Llofnod	Dyddiad	Dyddiad Adolygu Blynyddol	Dyddiad Adolygu Blynyddol	Dyddiad Adolygu Blynyddol